



Helpu eich cleientiaid i dalu am eu Trwydded Deledu

Mae'r Drwydded Deledu yn un o nifer o filiau y gallai eich cleientiaid fod yn eu hwynebu.

Mae'r daflen yma'n ceisio eich helpu i gefnogi eich cleientiaid a'u cynghori ar y dull talu gorau iddyn nhw.

Pwy sydd angen Trwydded Deledu?

Mae angen Trwydded Deledu ar unrhyw un sy'n gwyllo neu'n recordio rhaglenni teledu byw ar unrhyw sianel neu ddyfais, neu'n lawrlwytho neu'n gwyllo rhaglenni'r BBC ar BBC iPlayer.

Teledu lliw

£159.00

Teledu du a gwyn

£53.50

Beth yw'r gosb am beidio â chael Trwydded Deledu?

Gallai ein Swyddogion Gorfodi ymweld â'ch cleient os na fyddwn yn clywed ganddynt. Fe allen nhw gael eu herlyn os bydd ein Swyddogion yn darganfod eu bod yn gwyllo neu'n recordio rhaglenni wrth iddyn nhw gael eu dangos ar deledu neu'n fyw ar wasanaeth teledu ar lein, neu'n lawrlwytho neu'n gwyllo rhaglenni'r BBC ar alw, gan gynnwys teledu dal i fyny, ar BBC iPlayer, heb drwydded.

Gallai hyn fod ar unrhyw ddyfais, gan gynnwys teledu, cyfrifiadur bwrdd gwaith, gliniadur, ffôn symudol, tabled, consol gemau, bocs digidol neu beiriant recordio DVD/VHS.

Y gosb uchaf yw dirwy o £1,000 ynghyd ag unrhyw gostau cyfreithiol a/neu iawndal y gallai eich cleient gael eu gorchymyn i'w talu.

Gweithio gyda'r gymuned.

Byddai'n llawer gwell gennym i bobl dalu'r ffi na wynebu erlyniad. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â nifer o grwpiau cymunedol ac elusennau ar draws y Deyrnas Unedig er mwyn cyrraedd y rhai nad ydynt o bosib yn ymwybodol o'r gofyniad cyfreithiol i gael trwydded nac am y nifer o ffyrdd y gallant dalu.

Adnoddau eraill.

Yn Nhrwyddedu Teledu, rydym yn paratoi nifer o daflenni gwybodaeth i helpu ein cwsmeriaid a phobl broffesiynol. Gallwch archebu'r rhain trwy ein tîm ymgyrchu neu eu lawrlwytho oddi ar ein gwefan. Ewch i [tvlicensing.co.uk/communityinfo](https://www.tvlicensing.co.uk/communityinfo)



Taflenni amlieithog.

Mae gennym wybodaeth ar gael mewn nifer o ieithoedd, gan gynnwys:

Albaneg • Arabeg • Bengaleg • Cantoneg • Cymraeg
Gaeleg • Groeg • Gwjarati • Hindi • Pwyleg • Portiwgaleg
Pwnjabeg • Rwseg • Serbo Croateg • Slofaceg • Somalieg
Tamileg • Tyrceg • Wrddw • Fietnameg

Rydym hefyd yn cynnig gwasanaeth cyfieithu dros y ffôn i unrhyw un sy ddim yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf. I brynu trwydded, neu ofyn am wybodaeth bellach mewn dros 150 iaith, ffoniwch ni ar **0300 790 6044**.

Mae gwybodaeth bellach am Drwyddedu Teledu ar gael hefyd mewn nifer o ieithoedd yn [tvlicensing.co.uk/languages](https://www.tvlicensing.co.uk/languages)

Ymhlith y taflenni gyda gwybodaeth benodol y mae:

- Cael Trwydded Deledu (ar gael hefyd mewn print bras ar gyfer pobl â nam ar eu golwg)
- Gwybodaeth i Denantiaid

Os hoffech gael gair â'n tîm ymgyrchu, sy'n cyd-drefnu ein gwaith cymunedol, neu archebu unrhyw daflenni, ffoniwch **020 8752 6537** neu e-bostiwch campaignoffice@tvlicensing.co.uk



Consesiynau.

A yw eich cleient, neu rywun y maen nhw'n byw gyda nhw:

- **Yn 75 mlwydd oed neu drosodd, ac yn derbyn Credyd Pensiwn?**

Gallant wneud cais am Drwydded Deledu am ddim. Bydd angen iddynt fod yn derbyn Credyd Pensiwn yn eu henw nhw, neu gall hyn fod yn enw eu partner os ydyn nhw'n gwpl ac yn byw yn yr un cyfeiriad.

- **Yn 74 mlwydd oed ac yn derbyn Credyd Pensiwn?**

Gallant wneud cais am Drwydded Deledu am ddim nawr, ynghyd â thrwydded tymor byr i'w trwyddedu hyd at eu pen-blwydd yn 75.

- **Yn ddall (â nam difrifol ar eu golwg)?** Gallent fod yn gymwys i wneud cais am gonsesiwn o 50%. Gallant gwblhau ac argraffu ffurflen gais ar lein yn **tvlicensing.co.uk/blind** a'i hanfon atom ynghyd â chopi o'u dogfen cofrestru'n ddall neu dystysgrif gan eu hoffthalmolegydd. Fe ddylen nhw gynnwys rhif eu trwydded, rhif ffôn a thaliad trwy siec a'i phostio at TV Licensing, Blind Concession Group, Darlington DL98 1TL.

I gael mwy o wybodaeth am gonsesiynau, ewch i **tvlicensing.co.uk/concessions** neu ffoniwch **0300 790 6042**.



Ar gyfer pobl sy'n byw mewn gofal preswyl.

Mae consesiwn ar gael i bobl sy'n byw mewn rhai mathau o lety gofal preswyl, er enghraifft cartrefi neu dai gwarchod. I gael gwybodaeth, ffoniwch **0300 790 6042**.



Dewisiadau o ran talu.

Mae yna lawer o ffyrdd hawdd o dalu am Drwydded Deledu, gan gynnwys:

- **Ar lein** – fe all cwsmeriaid fynd i'n gwefan yn **tvlicensing.co.uk/payinfo** i dalu gyda cherdyn debyd neu gredyd.
- **Ffôn** – ein ffonio ar **0300 790 6042** i dalu gyda cherdyn debyd neu gredyd.
- **PayPoint** – mynd i unrhyw PayPoint i dalu gydag arian parod neu gerdyn debyd. I ddod o hyd i'w safle agosaf, ewch i **paypoint.com/locator**
- **Debyd Uniongyrchol** – gallant rannu cost eu trwydded trwy ddewis o blith amryw o opsiynau Debyd Uniongyrchol. Mae'n gyflym a hawdd trefnu Debyd Uniongyrchol, un ai dros y ffôn ar **0300 790 6042** neu ar lein yn **tvlicensing.co.uk/payinfo**
- **Trwy'r post** – gall cwsmeriaid ysgrifennu siec yn daladwy i 'Trwyddedu Teledu', gyda'u henw, cyfeiriad a chôd post wedi'u hysgrifennu'n glir ar y cefn, a'i hanfon at TV Licensing, Darlington DL98 1TL. Rhaid peidio ag anfon arian parod.

Yn ychwanegol at y ffyrdd o dalu sy'n cael eu rhestru uchod, mae yna amryw o gynlluniau talu sy'n addas ar gyfer nifer o amgylchiadau ariannol, gan gynnig ffyrdd o rannu cost y Drwydded Deledu.



Cerdyn talu Trwyddedu Teledu.

Beth yw'r cerdyn?

Mae'n helpu eich cleientiaid i dalu am eu Trwydded Deledu gyda thaliadau rheolaidd bob wythnos neu bob mis o £6.00 yr wythnos. Ar ôl ymuno, fe fyddan nhw'n cael amserlen talu sy'n dangos faint i'w dalu a phryd. Gallant dalu ar lein, trwy neges testun, mewn unrhyw PayPoint, neu dros y ffôn.

Sut mae'n gweithio?

Unwaith y bydd eich cleient wedi ymuno â'r cynllun, fe fyddan nhw'n cael cerdyn ac amserlen sy'n dangos faint i'w dalu tuag at eu Trwydded Deledu a phryd.

Os byddan nhw'n talu bob wythnos, fe fydd y cynllun chwe mis cyntaf fel arfer yn golygu 6 taliad wythnosol o £6.50 ac yn dilyn hynny 20 taliad wythnosol o £6.00, sy'n golygu bod y taliadau yn rhoi cyfanswm ffi'r drwydded o £159.00. Ar ôl gorffen y cynllun talu yma, fe fyddan nhw'n dechrau ar un newydd ar gyfer eu Trwydded Deledu nesaf. Bydd hyn yn rhoi 12 mis iddyn nhw dalu yn hytrach na chwech.

Os bydd eich cleient yn dewis talu bob mis, fel arfer fe fyddan nhw'n gallu talu am eu Trwydded Deledu gyntaf dros chwe mis. Ar ôl hyn, byddant yn dechrau talu am eu Trwydded Deledu nesaf dros 12 mis felly bydd y taliadau yn llai.

Er mwyn elwa ar dalu bob wythnos neu bob mis, rhaid i'ch cleientiaid barhau i wneud y taliadau rheolaidd fel sy'n ymddangos ar eu hamserlen talu.

Sut maen nhw'n ymuno â'r cynllun?

Trwy roi galwad i ni ar **0300 555 0288** o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8.30am a 6.30pm neu ddydd Sadwrn rhwng 8.30am a 1.00pm.



Sut i wneud taliadau.



Ar lein.

Os yw eich cleient yn gwsmer cerdyn talu Trwyddedu Teledu ar hyn o bryd, gallant wneud taliad ar ein gwefan ddiogel yn **tvlicensing.co.uk/payinfo** gan ddefnyddio eu cerdyn debyd neu gredyd. Gallant weld eu balans a chael hanes eu taliadau ar lein hefyd.

I logio i mewn, bydd angen iddyn nhw roi eu cyfenw a'u rhif cwsmer.



Trwy neges testun.

Os ydyn nhw wedi gwneud taliad o'r blaen gyda cherdyn debyd neu gredyd tuag at eu cynllun, gallant decstio **PAY** a'u rhif cwsmer ynghyd â'r swm y maen nhw'n dymuno ei dalu i **64488**.

Er enghraifft, petai eich cleient eisiau talu £6.00 a'u rhif cwsmer oedd 123456789, fe fydden nhw'n tecstio **'PAY 123456789 £6.00'** i 64488.

Wnawn ni byth ofyn iddyn nhw decstio rhif na manylion llawn eu cerdyn debyd neu gredyd. Bydd pob neges testun ar gost safonol negeseuon testun a bennir gan ddarparwr eu gwasanaeth ffôn symudol.



PayPoint

Mewn

PayPoint.

Gall eich cleient wneud taliadau gydag arian parod neu gerdyn debyd mewn unrhyw PayPoint. Fe ddylen nhw fynd â'u cerdyn talu i unrhyw safle a dweud faint maen nhw eisiau ei dalu.

Fe fyddan nhw'n cael derbynneb i brofi eu bod wedi talu, a dylen nhw ei chadw gyda'u Trwydded Deledu. I ddod o hyd i'w safle agosaf, ewch i **paypoint.com/locator**



Dros y ffôn.

Rhowch alwad i ni ar **0300 555 6042** i dalu gyda cherdyn debyd neu gredyd. Fe all eich cleient un ai dalu trwy ein gwasanaeth ymholi awtomataidd 24 awr neu gael gair ag asiant.

Os ydyn nhw wedi methu taliad, neu'n cael trafferth gyda'u taliadau, cysylltwch â ni ar yr un rhif ac efallai y gallwn helpu.

Os ydych yn dymuno trafod sefyllfa eich cleient yn uniongyrchol gydag un o'n cynghorwyr un pwrpas, gallwch ffonio'r **Llinell Gymorth i Gynghorwyr** ar **0300 303 9688**.

I gael gwybod mwy am **gerdyn talu Trwyddedu Teledu**, ffoniwch **0300 555 0288**.

Os oes gan eich cleient **broblemau gyda'u golwg**, mae'r wybodaeth yma ar gael iddynt trwy e-bost neu mewn Braille, print bras neu sain trwy ffonio **0300 790 6076**.

Os yw eich cleient yn fyddar, yn drwm eu clyw neu â nam ar eu lleferydd, rydym yn cefnogi Gwasanaeth Testun y Genhedlaeth Nesaf (NGT). I gael mwy o wybodaeth edrychwch ar **tvlicensing.co.uk/accessibility**

I gael gwybodaeth gyffredinol am Drwyddedu Teledu, ewch i **tvlicensing.co.uk/info**



tvlicensing.co.uk/communityinfo



campaignoffice@tvlicensing.co.uk



020 8752 6537



@TVLicensingNews



youtube.com/tvlicensing



Rydym yn croesawu eich galwadau, e-byst a llythyrau yn Gymraeg, a byddwn yn ymateb i chi yn Gymraeg. Mae'r amseroedd ymateb yr un fath ar gyfer Cymraeg a Saesneg. Ewch i **tvlicensing.co.uk/cymraeg**